**COFNODION SJR-02-03 (min)**

**Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO**

**Dyddiad: DYDD MERCHER 2 GORFFENNAF 2003**

**Amser: 09.30am - 12.20pm**

**Lleoliad: YSTAFELL BWYLLGORA 2, ADEILAD Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

**Yn Bresennol:**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Janice Gregory (Cadeirydd) | Ogwr |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gwyr |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Huw Lewis (Dirprwy Weinidog) | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Sandy Mewies | Delyn |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Catherine Thomas | Llanelli |
| Leanne Wood | Canol De Cymru |

*Yn bresennol*

| | |
|---|---|
| John Bader | Cyfarwyddwr Tai |
| Sanjiv Vedi | Is-adran y Sector Gwirfoddol |

| | |
|---|---|
| Lynne Schofield | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Karin Phillips | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |
| Graham Winter | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Y Clerc |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc |

**<u>09.30am - 09.45am</u>**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1. Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.
2. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y byddai'r bws yn gadael am 11 bore yfory (3 Gorffennaf) i ymweld â Thy Wellwood, Casnewydd. Ychwanegodd fod nifer o flaenraglenni gwaith drafft wedi'u dosbarthu i'r Aelodau o bwyllgorau pwnc eraill ac y dylid anfon unrhyw sylwadau at y Clerc erbyn 11 Gorffennaf.
3. Nododd y Cadeirydd fod yr amserlen gyfnodol yn cynnwys yr opsiwn ar gyfer cyfarfod ychwanegol ar 10 Gorffennaf gan ychwanegu nad oedd yn credu bod unrhyw faterion brys i gyfiawnhau cynnal y cyfarfod. Cododd rhai Aelodau fater y Papur Gwyn ar y Gwasanaeth Tân gan awgrymu bod yr amser yn cael ei ddefnyddio i drafod y goblygiadau. Dywedodd y Gweinidog mai dim ond yn ddiweddar y mae'r papur wedi bod ar gael ac nad oedd yn cael ei gyhoeddi fel dogfen ymgynghori gan y Dirprwy Brif Weinidog. Awgrymodd ei bod yn llunio papur cynhwysfawr i'w drafod yn ystod cyfarfod cyntaf tymor yr hydref pan fyddai modd gwahodd pobl eraill sydd â diddordeb.
4. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddatganiadau o fuddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 4.5.

Ni chafwyd dim.

**Eitem 2: Cofnodion cyfarfod 11 Mehefin 2003**
**SJR-01-03(min)**

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin.

**09.45am –09.55am**

**Eitem 3: Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau**
**SJR-02-03(p.1)**

1. Croesawodd y Cadeirydd Karin Phillips a Graham Winter o Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau a ddywedodd wrth yr Aelodau am y gwasanaethau a oedd ar gael.

2. Canmolodd yr Aelodau y gwasanaethau rhagorol.

**09.55am –10.40am**

**Eitem 4: Adroddiad y Gweinidog**
**SJR-02-03(p.2)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad a thynnodd sylw at y canlynol:

- **Adolygiad rhagarweiniol o'r Cynllun Cymorth Prynu -** Roedd wedi amgáu'r Adroddiad gyda'i hadroddiad ysgrifenedig er mwyn i'r Aelodau allu ei ystyried yn ystod y toriad ac roedd yn gobeithio y byddai'r Pwyllgor yn ei drafod yn ystod tymor yr hydref.
- **Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol -** Byddai'n llunio nodyn ar y sefyllfa bresennol**.**
- **Prosiectau cynnwys ieuenctid -** Byddai'n llunio nodyn i esbonio wrth yr Aelodau yr hyn a wnaed hyd yma**.**
- **Cynlluniau ernes tenantiaeth yng Nghymru a Lloegr -** Byddai'n llunio nodyn i esbonio wrth yr Aelodau yr hyn a wnaed hyd yma**.**

1. Gwnaeth yr aelodau y pwyntiau canlynol:

- **Adolygu arian craidd sefydliadau gwirfoddol sy'n ymwneud â digartrefedd** - mynegwyd pryder y bydd sefydliadau yn gweithio'n fwy drwy gyfrwng prosiectau a goblygiadau hynny i sefydliadau. Efallai y bydd angen ymgynghori ymhellach â Caer Las Cymru a Shelter Cymru.
- **Yr adroddiad ar Gymorth Prynu** - codwyd nifer o faterion, yn eu plith, goblygiadau ariannol, sefydlu darpariaeth gyllidebol sydd ar wahân i'r Grant Tai Cymdeithasol, sut

mae'r cynllun yn cael ei reoli a'i werthuso, nifer yr ymgeiswyr a wrthodwyd a faint ohonynt oedd yn siarad Cymraeg, a ellir yn gyfreithiol gyfeirio at drethi mewn penderfyniadau cynllunio, cynnwys y sector preifat yn y cynllun. Cyfeiriwyd at yr adolygiad polisi sy'n cael ei gynnal gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar yr agweddau ar gynllunio sy'n gysylltiedig â thai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad. Dywedodd Catherine Thomas (sy'n Aelod o'r ddau Bwyllgor) y byddai'n gweithredu fel cyswllt rhwng y ddau i sicrhau na fyddai unrhyw waith yn cael ei ddyblygu.

- **Swyddogion Tollau** - Gwerthfawrogwyd sylwadau'r Gweinidog ond codwyd pryder pellach mai dim ond 30 o swyddogion tollau sydd gan Gymru bellach. Awgrymwyd bod rhagor o bobl yn rhoi eu sylwadau.
- **Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar adnewyddu tai preifat** - canfuwyd lefel uwch o dwyll yng Nghymru.
- **Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar Warm Front (HEES) yn Lloegr** - a oes gwersi i'w dysgu ar dargedu'r cynllun yng Nghymru?
- **Menter Cysgwyr ar y Stryd** - nodwyd ei bod yn amcan gan Senedd yr Alban i gael gwared â phroblem cysgu ar y stryd erbyn 2012. A oes gwersi i Gymru eu dysgu o'i strategaeth ac a all y Gweinidog nodi sut mae'r rhaglen yn cyflawni'r strategaeth. Teimlwyd bod angen cael gwybod beth sy'n rhoi pobl yn y sefyllfa hon a cheisio delio â'r broblem.
- **Tlodi Tanwydd** - sut mae'r cynnydd yn cael ei fesur?
- **Cynigion i dynnu budd-dâl tai oddi ar bobl sy'n ymddwyn mewn ffordd wrth-gymdeithasol** - beth fyddai'n digwydd i bobl a eithrir rhag cael tai a'r effaith ar y strategaeth digartrefedd.
- **Timau Troseddau Ieuenctid** - codir tâl ar y gwasanaeth prawf am gleientiaid a atgyfeiriant i gael hyfforddiant sgiliau sylfaenol tra na chodir tâl am unigolion sy'n gwirfoddoli i gael hyfforddiant.
- **Gorchymyn Rheoleiddio Hawl i Gael Meddiant** - byddai'r Pwyllgor yn hoffi cael esboniad o'r hyn a aeth o'i le gyda'r Gorchymyn blaenorol.
- **Strategaeth chwaraeon** - mae i faterion a godir yn y strategaeth oblygiadau i waith y Pwyllgor.
- **Cefnogi pobl** - byddai'r Pwyllgor yn hoffi cael adroddiad ar brosiectau unigol, eu datblygiad a'u canlyniadau. Sut mae'r cymorth yn cael ei ddefnyddio?
- **Arolwg o gartrefi Cymru** - awgrymodd y Pwyllgor fod angen arolwg o Gymru gyfan er mwyn i'r darlun fod yn un cywir. A wnaiff y Gweinidog ailystyried ei phenderfyniad i beidio â chomisiynu arolwg o'r fath?

1. Dyma ymateb y Gweinidog:

- **Adolygu arian craidd sefydliadau gwirfoddol sy'n ymwneud â digartrefedd** -

nododd y pryderon gan ychwanegu ei bod yn bwysig cael y cydbwysedd iawn a chytunodd i ailystyried y sefyllfa.

- **Yr adroddiad ar Gymorth Prynu** - roedd wedi nodi'r pwyntiau a godwyd ac roedd yn edrych ymlaen at drafod y mater yn nhymor yr hydref.
- **Swyddogion Tollau** - nododd y pryderon pellach. Awgrymwyd y byddai'r Cadeirydd efallai am ystyried gwneud sylwadau ar ran y Pwyllgor.
- **Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar adnewyddu tai preifat** - canfuwyd lefel uwch o dwyll yng Nghymru am fod yr awdurdodau lleol wedi bod yn effeithlon wrth eu gwaith.

- **Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar Warm Front (HEES) yn Lloegr -** Bydd y swyddogion yn edrych ar adroddiad Lloegr ar Warm Front i weld a yw'n berthnasol i'r Cynllun Effeithiolrwydd Ynni yn y Cartref yng Nghymru. Bydd y Gweinidog yn edrych ar dargedau blynyddol HEES ac yn eu cynnwys yn ei hadroddiad y tro nesaf y bydd y mater ar yr agenda.

- **Menter Cysgwyr ar y Stryd -** mae wrthi'n edrych ar strategaeth Senedd yr Alban ar hyn o bryd a bydd yn llunio nodyn ar gyfer y Pwyllgor.

- **Tlodi Tanwydd** - byddai'n dosbarthu nodyn ar yr hyn a wnaed hyd yma a sut mae'n cael ei fonitro.
- **Cynigion i dynnu budd-dâl tai oddi wrth bobl sy'n ymddwyn mewn ffordd wrth-gymdeithasol** - byddai'n ysgrifennu at y Llywodraeth Ganolog ynghylch yr effaith ehangach y gallai hyn ei chael ym maes eithrio pobl.
- **Timau Troseddau Ieuenctid** - byddai'n ymchwilio i'r achos o godi tâl ar Bwyllgor Prawf Clare am hyfforddiant sgiliau sylfaenol ac yn rhoi adroddiad arno.
- **Y Cynllun Hawl i Gael Meddiant** - roedd yn anffodus na sylwyd ar y gwall cyn i'r Gorchymyn gael ei wneud. Mae'r Gorchymyn newydd wedi unioni'r sefyllfa. Bydd y Gweinidog yn dosbarthu nodyn ar y mater hwn.
- **Cefnogi pobl** - Bydd y Gweinidog yn rhoi adroddiad ar y cynllun Cefnogi Pobl yn yr hydref.
- **Arolwg o gartrefi Cymru** - Tanlinellodd y Gweinidog ei safbwynt na fyddai arolwg i Gymru gyfan yn gost-effeithiol.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i ddosbarthu nodyn i aelodau ar gyfleusterau Cymunedau a'r Rhaglen Weithgareddau
- Y Gweinidog i ddosbarthu nodyn i Aelodau ar Brofi Rhaglenni Cynnwys yr Ifanc
- Y Gweinidog i ddosbarthu nodyn i'r Aelodau ar Ernes Tenantiaeth yng Nghymru a Lloegr

- Y Gweinidog i roi'r sefyllfa ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y cynllun HEES yn ôl y gofyn
- Y Gweinidog i ysgrifennu i'r Llywodraeth Ganolog ynghylch effaith tynnu budd-daliadau tai oddi wrth bobl sy'n cael eu heithrio.
- Y Gweinidog i baratoi adroddiad ar Gefnogi Pobl yn yr hydref.
- Y Gweinidog i ddosbarthu nodyn ar Reoliadau "Hawl i Gael Meddiant".
- Y Gweinidog i ymchwilio ac adrodd yn ôl ar Bwyllgorau Cyfiawnder Ieuenctid y codir tâl arnynt am hyfforddiant sgiliau sylfaenol.
- Y Gweinidog i roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar y fenter Cysgwyr ar y Stryd.
- Y Gweinidog i ddosbarthu nodyn ar y cynnydd a wnaed ym maes tlodi tanwydd a sut y mae'n cael ei fonitro.
- Y Cadeirydd i ysgrifennu at Don Touhig AS am bryderon y Pwyllgor ynghylch ad-drefnu swyddogion tollau yng Nghymru.

**10.40am - 10.50am**

**Eitem 5: Cyflwyno Lwfans Atgyweiriadau Mawr**
**SJR-02-03(p.3)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y papur.
2. Cododd yr aelodau y pwyntiau canlynol:

- Roedd awdurdodau lleol yn croesawu hyn gan ychwanegu y byddai'r cynllun yn peri bod gan bobl syniad cliriach o'r cymorth sydd ar gael o ran cynnal a chadw eiddo.
- Pryder ynghylch cyllid. Nid oedd yr arian blaenorol wedi'i bridiannu, ond gallai clustnodi cyfalaf ar gyfer tai cyngor olygu bod llai o arian ar gael i ddibenion y Cyfrif Refeniw nad yw'n ymwneud â Thai. Mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn.
- Galwodd yr hen Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar i Lwfans Atgyweiriadau Mawr gael ei ryddhau a bydd yn helpu rhai awdurdodau lleol a fu'n ystyried y llwybr trosglwyddo stoc i fynd i'r afael â phroblemau.
- Bydd y cynllun yn agor y ffordd i fanteision o ran y stoc wrth i'r atgyweirio gael ei wneud, ac os defnyddir cwmnïau lleol, bydd manteision i'r economi leol. Mae'n bwysig defnyddio pobl leol lle bo modd er mwyn cynyddu sgiliau.
- Bwriedir cyflwyno'r cynllun ym mis Ebrill 2004. Gwnaed cais am adolygiad ym mis Ebrill 2005.

1. Nododd y Gweinidog y pryderon ynghylch clustnodi'r arian hwn ond ychwanegodd y byddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno ar yr un pryd â'r System Fenthyca Ddarbodus. Ychwanegodd ei bod yn cytuno bod angen cynyddu sgiliau sylfaenol.

**Pwynt Gweithredu**

- Y Gweinidog i roi adroddiad yn 2005 ar flwyddyn gyntaf gweithredu'r Lwfans.

**10.50am - 11.05am**

**Eitem 6: Trydydd Adroddiad Blynyddol Cynllun y Sector Gwirfoddol**
**SJR-02-03(p.4)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y papur gan ychwanegu ei fod yn fwy cadarn nag a fu mewn blynyddoedd blaenorol a bod cynnydd mawr wedi'i wneud. Dywedodd ei bod yn bwriadu cynnal adolygiad o Gynllun y Sector Gwirfoddol.
2. Gwnaeth yr Aelodau y sylwadau a ganlyn:

- Croesawyd yr adroddiad.
- Codwyd pryderon ynghylch y cynnydd arfaethedig mewn ffïoedd ar gyfer gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a faint o amser y mae'r gwiriadau hyn yn eu cymryd.
- A roddwyd ystyriaeth i bob crefydd?
- Roeddent yn pryderu nad oedd holl safleoedd CADW yn darparu ar gyfer pobl anabl.
- Roedd yn bwysig bod gan bob partner mewn partneriaethau hawliau cyfartal. Nodwyd bod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint wedi pwyso yn ddiweddar am ddatganiad interim ar y sefyllfa bresennol o ran adolygiad.
- Roedd Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) yn pryderu na fyddai'r gwaith a wneir ganddynt ar strategaeth tymor hir yn cael ei ystyried bellach.

1. Atebodd y Gweinidog gan ddweud:

- Ei bod yn rhannu'r pryderon ynghylch y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'i bod wedi gwneud sylwadau yn y gorffennol.
- Bod pob crefydd wedi'i hystyried.
- Y byddai'n trafod y pwyntiau a godwyd gyda CADW.
- Byddai llythyr yn cael ei anfon at CVCs yn cydnabod eu hymdrechion a'u cyfraniadau o ran y strategaeth, a byddai'n cael ei gynnwys yn yr adolygiad o Gynllun y Sector Gwirfoddol, sef y Cynllun yr oedd yn ei gynnig.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y mater o fynediad i bobl anabl i Henebion ac ati.
- Byddai llythyr yn cael ei anfon at CVCs yn cydnabod eu hymdrechion a'u cyfraniadau o ran y strategaeth, a byddai'n cael ei gynnwys yn yr adolygiad o Gynllun y Sector Gwirfoddol, sef y Cynllun yr oedd yn ei gynnig.

**<u>11.05am - 11.20am</u>**

Cytunodd y Pwyllgor i gael egwyl am 15 munud.

**<u>11.20am - 11.50am</u>**

**Eitem 7: Cylch Cynllunio Cyllideb 2003**

**SJR-02-03(p.5)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y papur a oedd yn amlinellu'r gyllideb ar gyfer ei phortffolio gan ychwanegu ei bod hithau hefyd yn awyddus i'r agenda tai gael mwy o flaenoriaeth.
2. Cyflwynodd yr Aelodau y sylwadau canlynol:

- Cymeradwywyd sylwadau'r Gweinidog y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i faterion tai yn ogystal â llawer o faterion cymdeithasol eraill sy'n ymwneud â thai.
- Cydnabuwyd bod tai fforddiadwy da yn sylfaenol i agenda ehangach iechyd a gofal cymdeithasol a nodwyd pwysigrwydd Adroddiad Wanless a'r potensial am arian yn y dyfodol.
- A yw'r Rhaglen Addasiadau Brys wedi'i gwerthuso?
- Byddai croeso i unrhyw wybodaeth ar y Strategaeth ar Dai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.
- Efallai y dylid ceisio cyflwyno cyllideb ar wahân ar gyfer cymorth prynu. Ceisio cynyddu Grantiau Tai Cymdeithasol gan ei fod wedi aros ar yr un lefel ers nifer o flynyddoedd.
- O ran Cefnogi Pobl, dylid deall bod y gyllideb wedi'i chlustnodi gan Lywodraeth y DU. Pa effaith gaiff hyn yng Nghymru?
- Mae'n bwysig peidio ag osgoi materion cyffuriau ac alcohol. Byddai diddordeb ganddynt i wybod pa ganran sy'n gysylltiedig â throseddau. Nid yw'r materion gorfodi presennol yn lleihau'r achosion o gamddefnyddio sylweddau. Teimlwyd bod angen edrych ar y broblem mewn ffordd wahanol ac edrych ar yr hyn sy'n achosi'r camddefnydd a cheisio'i osgoi.
- Mae'n bwysig peidio ag anghofio mentrau cymunedol a'r arian i adfywio ar lefel leol.
- Byddai'n dda mynd i'r afael â'r broblem yn y sector trais yn y cartref.

1. Diolchodd y Gweinidog i'r Aelodau am eu sylwadau gan ddweud:

- Bod y Rhaglen Addasiadau Brys yn syniad da a bod partneriaeth wych wedi'i ffurfio gyda Gofal a Thrwsio. Cytunodd i lunio nodyn ar y rhaglen hon.
- O ran pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, byddai £200,000 ar gael i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol eraill dros gyfnod o 3 blynedd. Y prif nod fyddai paratoi strategaethau. Byddai'r gweddill yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau'r bobl hyn. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n rhoi adroddiad ar y cynigion.
- Bod y gyllideb dal heb ei phennu o ran Cefnogi Pobl a'i bod wedi'i chynyddu yn ddiweddar. Roedd hyn yn fater ar gyfer y dyfodol.
- Ei bod yn cytuno ei bod yn hollbwysig atal problem camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Cytunodd hefyd i gynnwys dadansoddiad o gyllidebau cymunedau diogelach a phob cyllideb gysylltiedig arall yn ei hadroddiad a oedd i'w gyhoeddi yn yr hydref.
- Y bydd yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor maes o law ar y gronfa adfywio leol gan ei bod o'r farn nad oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud ohoni. Byddai hefyd yn trafod arian Amcan 1 a'i ddefnydd gyda'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Aelodau ar y Rhaglen Addasiadau Brys.
- Y Gweinidog i adrodd ar gynigion am gymorth ariannol ar brosiectau sy'n ymwneud â phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Yn ei adolygiad o Cymunedau yn Gyntaf, y Dirprwy Weinidog i gynnwys dadansoddiad o wariant Cymunedau yn Gyntaf, fesul Cyngor, yn erbyn yr arian a ddyrannwyd a gwybodaeth ynghylch sut roedd awdurdodau lleol wedi manteisio ar arian Ewropeaidd i ychwanegu at arian Cymunedau yn Gyntaf.
- Y Gweinidog i ddadansoddi cyllideb Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.
- Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn amlinellu safbwyntiau'r Pwyllgor.

**<u>11.50am - 11.55pm</u>**

**Eitem 8: Adfywio Cymunedol**
**SJR-02-03(p.6)**

1. Dywedodd y Gweinidog ei bod am gofnodi ei diolch i'r hen Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am ei waith yn y maes hwn ac yn benodol i Gwenda Thomas, y Cadeirydd, am ei hymdrech ddiflino a'i harweiniad rhagorol. Ychwanegodd ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wrth fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen a'i bod wedi gofyn i'r Dirprwy Weinidog oruchwylio'r cynnydd a wneir ar yr argymhellion a wnaed fel rhan o'r adolygiad o Cymunedau yn Gyntaf.

2. Roedd yr Aelodau yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog yn derbyn pob argymhelliad. Gofynnwyd a fyddai'r adolygiad yn ystyried defnyddio gwahanol ffrydiau ariannu Ewropeaidd fel arian cyfatebol. Cytunodd y Gweinidog a chyfeiriodd at ei sylwadau cynharach ar arian cyfatebol Ewropeaidd.
3. Dywedodd y Gweinidog fod cynghorydd arbennig sy'n arbenigo ym maes ariannu wedi'i benodi am gyfnod o 3 mis i gynorthwyo'r Dirprwy Weinidog.
4. Dywedodd y Cadeirydd ei bod wrth ei bodd bod gwaith datblygu cymunedau yn ddiwydiant sy'n tyfu a bod hyn yn adlewyrchiad bendigedig o bolisïau'r Cynulliad.

**<u>11.55pm - 12.10pm</u>**

**Eitem 9: Adolygiad Polisi**

**SJR-02-03(p.7)**

1. Cyflwynodd y Clerc y papur gan ychwanegu y byddai'n croesawu sylwadau ar y cylch gorchwyl, yr amserlen a'r llythyr ymgynghori drafft ar gyfer yr adolygiad polisi.
2. Cytunodd yr Aelodau ar y cylch gorchwyl a'r amserlen gan awgrymu cynnwys y materion canlynol yn y llythyr ymgynghori:

*Ffyrdd i alluogi pobl hyn i aros yn eu cartrefi eu hunain*

- Edrych ar gynlluniau refersiwn
- Ystyried y cyswllt â Cymunedau yn Gyntaf
- Cartrefi gofal a chartrefi yn y gymuned

*Rôl a dyfodol tai gwarchod*

- Edrych ar yr arferion gorau
- Hyblygrwydd cynllun

1. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r Pwyllgor yn penodi Cynghorydd Arbenigol i helpu gyda'r adolygiad. Trafodwyd manteision penodi cynghorydd a chytunwyd y byddai adolygiad yn beth da.
2. Atgoffodd y Clerc yr Aelodau y byddai'n rhaid cael cystadleuaeth agored ac y byddai trefniadau yn cael eu rhoi ar waith i wneud hynny.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiwygio'r llythyr ymgynghori.
- Yr Ysgrifenyddiaeth i baratoi hysbyseb ar gyfer swydd Cynghorydd Arbenigol a'i dosbarthu i'r aelodau wneud sylwadau arni.

**12.25pm - 12.20pm**

**Eitem 10: Blaenraglenni Gwaith**

**SJR-02-03(p.8)**

10.1 Cyflwynodd y Clerc y papur gan ddweud unwaith y cytunir ar y Rhaglen Waith Strategol, byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y pwyllgorau pwnc eraill yn gofyn am eu sylwadau.

2. Cytunodd yr aelodau ar y rhaglen waith strategol.

10.3 Awgrymodd yr aelodau y dylid ad-drefnu rhywfaint ar y rhaglen waith fanwl ar gyfer tymor yr hydref, a chytunodd y Cadeirydd i hyn.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu copïau o'r rhaglen waith strategol i Gadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc eraill.
- Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiwygio'r rhaglen waith fanwl.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Gorffennaf 2003